Is-adran Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar
Early Years Childcare and Play Division

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

| **Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif:** | **WGC 011/2024** | **Dyddiad cyhoeddi:** | 12 Rhagfyr 2024 |
|---|---|---|---|

| **Statws:** | **I'w weithredu** |
|---|---|

| **Teitl:** | **Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i Blant hyd at 12 oed**<br>**Canllawiau i gefnogi Safon 11: Meddyginiaeth sy'n ymwneud â rhoi hylif paracetamol heb fod ar bresgripsiwn i blant yn achlysurol.** |
|---|---|

| **Cyhoeddwyd gan:** | |
|---|---|
| Ruth Conway, Is-adran Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru | |
| **Cyfeiriwyd at:** | **Anfonwch ymlaen at:** |
| Arolygiaeth Gofal Cymru<br>Gofal Cymdeithasol Cymru<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol<br>Cydgysylltwyr Gofal Plant Awdurdodau Lleol<br>Cydgysylltwyr Chwarae Awdurdodau Lleol<br>Timau Dechrau'n Deg Awdurdodau Lleol<br>AWARE<br>Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Awdurdodau Lleol<br>Consortiwm Gofal Plant CWLWM<br>Chwarae Cymru | Yr holl wasanaethau gwarchod plant a gofal dydd cofrestredig a phartïon eraill â buddiant |

| **Crynodeb** | |
|---|---|
| Cyhoeddir y Cylchlythyr hwn gyda chytundeb y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol. Gofynnwn i chi sicrhau bod y cynnwys yn cael ei ddosbarthu i'r holl bartïon sydd â buddiant cyn gynted â phosib. | |
| **I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:** | |
| | E-bost: gofalplantachwarae@llyw.cymru<br>Gwefan: www.llyw.cymru |

**Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed: y newidiadau diweddaraf**

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi hysbysu Llywodraeth Cymru am bryderon ynghylch iechyd a lles plant mewn lleoliadau cofrestredig gwarchod plant a gofal dydd ("lleoliadau cofrestredig"). Yn benodol, mae'r pryderon yn ymwneud â rhoi Paracetamol Hylifol **heb fod ar bresgripsiwn** i blant gan staff mewn lleoliadau cofrestredig.

Mae angen diogelu iechyd plant bob amser. Felly, dylai plant allu cael triniaeth brydlon ar gyfer lleddfu poen neu yn sgil tymheredd uchel tra byddant mewn lleoliadau cofrestredig, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ar gyfer gweinyddu Paracetamol Hylifol, ac yn amodol ar gydsyniad rhiant/gofalwr y plentyn.

Mae'r canllawiau hyn yn disgrifio sefyllfaoedd lle mae gweinyddu Paracetamol Hylifol[1] yn cael ei ystyried yn dderbyniol ac yn ategu'r **Safon 11: Meddyginiaeth** gyfredol yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023. Caiff y canllawiau hyn eu rhoi ar waith ar unwaith. Bydd y Safon sy'n ymwneud â meddyginiaeth yn cael ei diweddaru yn unol ag adolygiad cylchol ehangach ac ymgynghoriad ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a gynhelir maes o law.

Mae'r pryderon a amlygwyd gan AGC wedi arwain at alwadau am eglurhad ynghylch yr hyn y gall ac na all lleoliadau cofrestredig ei wneud mewn perthynas â gweinyddu Paracetamol Hylifol yn unol â **Safon 11: Meddygaeth.** Mae angen eglurhad penodol

[1] At ddibenion y canllawiau hyn, mae Paracetamol Hylifol yn cyfeirio at becynnau bach unigol 5mL o hylif paracetamol heb siwgr sy'n cynnwys 120mg o baracetamol fesul 5mL, yn unig.

ynghylch a all Paracetamol Hylifol, nad yw wedi'i ragnodi ar gyfer plentyn, gael ei storio a'i weinyddu i blant pan fydd mesurau diogelu priodol ar waith.

Ar hyn o bryd, mae **Safon 11: Meddyginiaeth** yn caniatáu ar gyfer darparu meddyginiaeth ar bresgripsiwn i blant perthnasol, ond nid yw'n cyfeirio'n benodol at feddyginiaeth heb fod ar bresgripsiwn.

Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu canllawiau wedi'u diweddaru er mwyn i leoliadau cofrestredig gael storio a gweinyddu Paracetamol Hylifol yn unol â bodloni'r amodau cyffredinol canlynol **a'r** amodau penodol sy'n ymwneud â Paracetamol Hylifol:

**Amodau cyffredinol**

- Bod gan y lleoliad cofrestredig bolisi meddyginiaeth sy'n disgrifio'r amgylchiadau lle gellir gweinyddu Paracetamol Hylifol i blentyn sy'n mynychu'r lleoliad;

- Bod y polisi meddyginiaeth wedi cael ei rannu gyda'r rhiant/gofalwr a'i fod yn nodi'r trefniadau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i sicrhau bod meddyginiaeth ar bresgripsiwn a heb fod ar bresgripsiwn yn cael ei gweinyddu'n ddiogel, gan gynnwys pan fo angen brys tra bo plentyn yn derbyn gofal mewn lleoliad cofrestredig, er enghraifft, os bydd gan blentyn dymheredd uchel; a

- Bod rhieni/gofalwyr y plentyn wedi rhoi caniatâd i'r lleoliad cofrestredig weinyddu Paracetamol Hylifol i'r plentyn perthnasol o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn y polisi meddyginiaeth.

**Yr amodau sy'n ymwneud â phob tro y rhoddir Paracetamol Hylifol**

Os bydd plentyn yn mynd yn sâl tra bo yn y lleoliad cofrestredig, mae'n fwyaf priodol i'r plentyn gael ei gasglu gan riant neu ofalwr. Fodd bynnag, yn yr amgylchiadau canlynol:

a) os bydd oedi cyn i'r rhiant neu'r gofalwr gasglu'r plentyn neu drefnu ei gasglu gan rywun arall; neu
b) os nad oes modd cysylltu â'r rhiant neu'r gofalwr ar unwaith,

mae'n briodol i'r plentyn gael **un ddos (sy'n briodol i'w oedran) o Baracetamol Hylifol** tra bo'r plentyn yn aros i gael ei gasglu:

1. os bydd rhiant neu ofalwr y plentyn wedi rhoi caniatâd ymlaen llaw i'w blentyn gael Paracetamol Hylifol;

**a naill ai**

2. cysylltwyd â rhiant neu ofalwr y plentyn;
3. mae rhiant neu ofalwr y plentyn wedi rhoi caniatâd i'r ddos o Baracetamol gael ei rhoi;
4. mae cyfnod o 4 awr o leiaf wedi mynd heibio ers rhoi'r ddos ddiwethaf o Baracetamol i'r plentyn; a
5. os bydd y rhiant neu'r gofalwr wedi ymgymryd i gasglu'r plentyn o'r lleoliad cofrestredig cyn gynted ag y bo'n ymarferol;

**neu**

6. os bydd y lleoliad cofrestredig wedi ceisio cysylltu â rhiant neu ofalwr y plentyn, ond ni ellir cysylltu â nhw;
7. mae'r lleoliad cofrestredig wedi cysylltu â GIG 111;
8. mae gweithiwr gofal iechyd proffesiynol (yn GIG 111) wedi cynghori y byddai'n briodol rhoi dos o Baracetamol Hylifol; a
9. yn dilyn hynny, mae'r lleoliad cofrestredig yn cysylltu â rhiant neu ofalwr y plentyn i drefnu i'r plentyn gael ei gasglu o'r lleoliad cofrestredig cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Yn ogystal â'r uchod, rhaid i leoliadau cofrestredig barhau i gadw at **Safon 10.2** sy'n nodi:

> "Na dderbynnir unrhyw blentyn os ymddengys ei fod yn sâl. Os bydd plant yn sâl yn ystod ei amser yn y lleoliad gofal plant neu chwarae, y cymerir gofal i atal heintio plant eraill ac y rhoddir gwybod i'r rhieni cyn gynted â phosibl."

Ni ddylid cymryd yn ganiataol bod plentyn yn well ar ôl cael Paracetamol Hylifol, ac ym mhob achos dylai rhiant/gofalwr gasglu'r plentyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r plentyn fynd yn sâl.

## Storio, gweinyddu a chadw cofnodion

Mae Llywodraeth Cymru yn argymell bod darparwyr cofrestredig yn cael, storio a gweinyddu Paracetamol Hylifol o dan yr amgylchiadau cyfyngedig a ddisgrifir yn y canllawiau hyn.

Dylai lleoliadau cofrestredig brynu pecynnau bach o hylif paracetamol heb siwgr sy'n cynnwys 120mg o baracetamol ym mhob pecyn bach 5mL. Gellir cael cyngor ar brynu Paracetamol Hylifol o unrhyw fferyllfa.

Rhaid i'r lleoliad cofrestredig sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer storio a gweinyddu dosau o Baracetamol Hylifol yn ddiogel, a chadw cofnodion o'r dosau hynny a ddefnyddir yn unol â'r polisi meddyginiaeth.

Rhaid gwirio dyddiadau dod i ben pob meddyginiaeth wedi'i storio'n rheolaidd (o leiaf bob tri mis), a chyn gweinyddu pob dos.

Rhaid cofnodi pob dos o Baracetamol Hylifol a roddir i blentyn mewn lleoliad cofrestredig yn unol â'r canllawiau hyn, ar adeg ei weinyddu.

Mae gweinyddu Paracetamol Hylifol wedi'i gadw ar gyfer sefyllfaoedd brys pan fo'n anymarferol i rieni/gofalwyr plentyn gasglu'r plentyn yn brydlon, a dim ond pan fo gweinyddu dos o'r fath yn unol â'r canllawiau a nodir yn y cylchlythyr hwn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â chynnwys y cylchlythyr hwn, mae croeso ichi e-bostio gofalplantachwarae@llyw.wales